



barcud

CYLCHLYTHYR
Medi 2021

Neges gan Steve Jones Prif Weithredwr y Grŵp



Mae hi bron yn ben-blwydd cyntaf Barcud. Bu'n flwyddyn heriol a phrysur iawn ac rwy'n falch o'r ffordd y mae fy nghydweithwyr wedi ymateb i'r her yn holl adrannau'r gymdeithas er mwyn sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn ystod yr uno a Covid mor ddi-dor ag oedd modd.

Grŵp Monitro Barcud

Mae Grŵp Monitro Barcud yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer ein dyfodol ac mae ein cyfarfodydd rheolaidd i drin materion tenantiaid yn ffynhonnell wych o wybodaeth a chefnogaeth. Maent yn gweithio ar eich rhan ac os hoffech wybod mwy am eu gwaith, neu os hoffech gymryd rhan a chynrychioli barn tenantiaid, cysylltwch â Sue Thomas neu Alisa Cakebread a fydd yn hapus i drafod sut y gallwch ddod yn aelod.

Cynllun Busnes

Rwy'n falch i ddweud y cafodd ein cynllun busnes pum-mllynedd newydd ei gyhoeddi ar ein gwefan a bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn gyflym i gyflawni ein targedau. Ein prif flaenoriaethau yw uwchraddio cartrefi presennol ac adeiladu tai newydd effeithiol o ran ynni yn y cymunedau y dewiswn fyw ynddynt.



Cynllun Datgarboneiddio

Wrth i ni ddechrau ar ein chwe mis nesaf yn Barcud, mae'r Bwrdd a'r tîm Arweinyddiaeth yn awyddus i sicrhau ein bod yn gweithredu ar newid hinsawdd i ddatgarboneiddio'r cwmni a'r cartrefi a ddarparwn ac i hybu cymunedau

cynaliadwy ar draws ardal Barcud. Fel darparwydd blaenllaw cartrefi a gwasanaethau ansawdd da, rydym eisiau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n tenantiaid, staff ac ardaloedd gwledig canol-barth a gorllewin Cymru.

Beth mae hyn yn ei olygu? Bydd y ffocws ar gysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol ac yn arbennig ymgynghori gyda'n tenantiaid a staff. Rydym yma i greu tenantiaethau cynaliadwy ar gyfer pawb yn rheulu Barcud ac i wneud gwahaniaeth yn y cymunedau yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt. Bydd tîm prosiect yn casglu gwybodaeth dros y 6 mis nesaf i ddeall sut y gallwn ostwng tlodi tanwydd, gwella amodau byw a gostwng ein ôl-troed carbon fel sefydliad.

Diweddariad Bwrdd

Wrth i ni fynd i'r wasg, rwy'n falch iawn i groesawu aelod newydd i Fwrdd Barcud. Mae gan Carina Roberts lwyth o brofiad tai o'i swyddi blaenorol gyda chymdeithas tai Grŵp Cynefin yn y gogledd. Llongyfarchiadau mawr ar eich penodiad Carina, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi ar brosiectau'r dyfodol.



Covid

Rydym yn dal i fyw gyda Covid – yr ofnau, y cyfyngiadau, y problemau iechyd. Er fod cyfyngiadau wedi llacio, mae angen i bawb ohonom fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau am ddiogelwch ein gilydd. Bydd ein staff yn gwneud popeth posibl i gefnogi ein tenantiaid a gobeithiwn y byddwch chi, ein tenantiaid, yn ystyriol o'r cyfyngiadau sydd ar ein gwaith a'r ofnau sydd gennym ni fel cydweithwyr am ein gilydd a'n teuluoedd. Os oes gennych waith cynnal a chadw wedi'i drefnu a bod rhywun yn eich cartref â symptomau Covid, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda. Rydym yma i gefnogi ein gilydd.

Steve Jones

Diweddariad gan Grŵp Monitro Barcud

Cyfarchion gyd-denantiaid, Gobeithiwn fod popeth yn iawn gyda chi yn ystod y cyfnod anodd yma. Mae Barcud a hefyd y Grŵp Monitro yn gorfod canfod ffyrdd newydd o weithio o hyd oherwydd y pandemig parhaus yma ac mae'n dal i fod yn broses ddysgu barhaus i ni.

Fel bob amser, bu'r ychydig fisoedd diwethaf yn brysur iawn i'r grŵp wrth i ni weithio'n agos gyda Barcud i sicrhau y caiff ei wasanaethau, polisïau a gweithdrefnau eu darparu'n gyfartal ar draws ei stoc tai.

Fodd bynnag, mae pawb ohonom yn hyderus y daw'r broses hon yn rhwyddach yn yr ychydig fisoedd nesaf yn dilyn gosod offer cyfrifiadurol a meddalwedd newydd yn swyddfa'r Drenewydd. Ni all hyn ddim dod yn ddigon buan i bawb ohonom.



Ar ran y Grŵp, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ymestyn diolch a dymuniadau gorau i Karen Oliver, cyn Gadeirydd Tai Ceredigion, y Bwrdd Cysgodol a Barcud. Bu Karen yn gyfaill a chyd-wirfoddolwraig sy'n credu'n gadarn mewn ymgyfraniad tenantiaid ledled y gymdeithas. Camodd Karen i lawr o'r Bwrdd oherwydd ymrwymïadau personol cynyddol a gobeithiwn ei gweld mewn digwyddiadau yn y dyfodol. Hoffwn hefyd ddiolch i Stephen Cripps fel Cadeirydd newydd Bwrdd Barcud. Bu Steve yn ymwneud â Tai Ceredigion, y Bwrdd Cysgodol a Barcud. Mae'n rhannu barn a safbwyntiau Karen ynghylch tenantiaid. Llongyfarchiadau Steve.

Yn yr ychydig fisoedd diwethaf, cafodd y grŵp gyfarfodydd ar wahân gyda Steve Jones (Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Barcud), Steven Cripps (Cadeirydd, Bwrdd Barcud), Janice Thomas (Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus

a Chyfathrebu) ac Astari (Archwilwyr Allanol Annibynnol Barcud). Mae aelodau hefyd wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau gyda thenantiaid o bob rhan o Gymru ar ddatgarboneiddio, Safonau Ansawdd Tai Cymru, Craffu, Anabledd a llawer mwy. Mae aelodau hefyd wedi mynychu digwyddiadau gyda Llywodraeth Cymru a chyflwyno eu sylwadau ar yr ymgynghoriad diweddar ar Gontractau Meddiannaeth Enghreifftiol Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, fydd yn dod yn lle ein cytundeban tenantiaeth presennol yn 2022. Bydd cyflwyno'r contractau hyn yn golygu llawer iawn o waith i Barcud a'r grŵp, ond rydym yn barod i gynorthwyo. Bydd y grŵp yn aildechrau ar ein harchwiliadau eiddo gwag i sicrhau eu bod yn cyrraedd ein safonau cyn iddynt gael eu gosod. Rydym hefyd wedi dechrau ein hadolygiad annibynnol o daliadau gwasanaeth presennol yn dilyn hyfforddiant gan Astari. Rydym hefyd yn edrych sut y gellir trefnu Cynhadledd Tenantiaid eleni dan y cyfyngiadau presennol yn defnyddio profiad a gafwyd o'n Fforwm Cydlynw Tenantiaid rhithiol cyntaf a gynhaliwyd ar 5 Mai. Cadwch lygad am wybodaeth ar y Gynhadledd Tenantiaid. Dewch draw a'n cefnogi os gallwch.

Rydym bob amser yn edrych am aelodau newydd. Rwy'n falch i ddweud fod gennym bellach aelod o Aberteifi yn dilyn ein apêl ddiwethaf. Rydym yn dal yn awyddus i glywed gan denantiaid o Bowys a Cheredigion sydd â diddordeb. Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd misol i weld beth ydym yn ei wneud, cysylltwch â Sue Thomas, Uwch Swyddog Ymgyfraniad Tenantiaid ar 0300 111 3030 neu anfon e-bost at post@barcud.cymru

Yn olaf hoffwn ddiolch i fy holl gyd-denantiaid sydd wedi rhoi yn rhydd o'u hamser i'r grŵp ac am eu hymrwymiad parhaus. Diolch.

Tan y tro nesaf, cadwch yn ddiogel ac iach.

Paul Clasby

Cadeirydd

Grŵp Monitro Barcud



Arolwg!

Llenwch a dychwelwch yr arolwg i gael cyfle i ennill un o bedair taleb £100.

Dylech fod wedi derbyn eich copi o arolwg tenantiaid cyntaf Barcud erbyn hyn. Mae'n arolwg annibynnol a gaiff ei ddosbarthu i bob tenant. Bydd yn helpu Barcud i ganfod pa mor fodlon yw tenantiaid gyda'r gwasanaeth a ddarparwn. Caiff y canlyniadau eu bwydo'n ôl i Barcud heb eich manylion personol felly gallwch fod yn hyderus eu bod yn ddi-enw.

Mae eich sylwadau yn bwysig iawn i ni. Maent yn gadael i ni wybod beth ydych yn ei feddwl a byddwn yn eu defnyddio i helpu llunio a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i chi yn y dyfodol.

Mae Barcud yn ymroddedig i wrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud, felly helpwch ni drwy lenwi'r arolwg pan fydd yn cyrraedd os gwelwch yn dda.

Sylwadau ar Sbwriel

Mae sbwriel ac ailgylchu yn rhan o'n stadau, cynlluniau a fflatiau wedi dod yn broblem gynyddol dros y chwe mis diwethaf. Caiff bagiau sbwriel eu rhoi allan ar y dyddiau anghywir a gwastraff a ddylai gael ei ailgylchu yn cael ei roi gyda gwastraff cyffredinol.

Mae peidio cael gwared â'ch sbwriel yn gywir yn denu llygod a gwyllanod ac yn y blaen ac yn gwneud i'r stad edrych yn flêr ac anniben. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw'r ardal lle'r ydych yn byw yn lân a thacius drwy ddilyn canllawiau sbwriel ac ailgylchu.

Mae'n ymrwymiad yn eich cytundeb tenantiaeth i:

- Gadw pob ardal gyffredin (tu mewn a thu allan) yn lân ac yn glir o rwystrau.
- Dim ond gadael sbwriel yn y biniau neu gyfleusterau storio a roddwyd a pheidio rhoi bagiau neu finiau sbwriel allan i gael eu casglu heblaw ar y diwrnod pryd maent i fod i gael ei casglu.



Fel cymhelliant ychwanegol, caiff pob arolwg a ddychwelir ei gynnwys mewn cystadleuaeth a bydd y pedwar enw cyntaf allan o'r het yn derbyn taleb £100.

Os hoffech fwy o wybodaeth, ffoniwch Sue Thomas, Uwch Swyddog Ymgyfraniad Tenantiaid ar 0300 111 3030



Mae peidio cael gwared â'ch sbwriel yn gywir yn torri amodau eich tenantiaeth.

1. Ailgylchu

Mae Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion yn darparu biniau neu fagiau ailgylchu. Gofynnir i chi ailgylchu gymaint ag sydd modd, gan sicrhau eich bod yn rhoi eitemau ailgylchu yn y biniau cywir i atal halogi

2. Gwastraff cyffredinol a chasglu

Gallwch ganfod eich dyddiadau casglu ar gyfer gwastraff cyffredinol ac ailgylchu ar wefan eich cyngor lleol drwy roi eich cod post yn y gwefannau dilynol:

Powys: en.powys.gov.uk/binday

Ceredigion: bit.ly/2UOLbad

Gofynnir i chi beidio rhoi eich bag bin neu fin allan ar y palmant tan 7pm y noswaith cyn y diwrnod casglu. Os ydych yn defnyddio storfa biniau, sicrhewch eich bod yn defnyddio'r bin mawr cywir ar gyfer eich gwastraff os gwelwch yn dda. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddog tai neu

Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Powys ar www.powys.gov.uk/recycle neu Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Ceredigion ar <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/bins-recycling/>

Prosiect STEP

Ar ôl blwyddyn anodd oherwydd Covid-19, mae STEP yma i'ch helpu i gael dechrau da i'ch gyrfa a'ch cael yn ôl ar y trywydd cywir. Os ydych yn 25+ oed, yn economaidd anweithgar neu wedi bod yn ddi-waith am 12 mis neu fwy, dewch i gysylltiad heddiw. Gallech fod yn gymwys am y cyfle hwn i newid gyrfa a chael y tystysgrifau a sgiliau cyflogaeth hynny yr ydych bob amser wedi bod eu heisiau. Mae nifer y lleoedd yn gyfyngedig felly ffoniwch heddiw, anfon e-bost neu alw heibio'n swyddfeydd yn natblygiad newydd Canolfan Creuddyn yn Llanbedr Pont Steffan.



Gallwn gynnig amrywiaeth o wasanaethau i'r sawl sy'n cymryd rhan:

- Cymorth un-i-un AM DDIM
- Lleoliadau gwaith ar dâl
- Cymwysterau gydag achrediad
- Cardiau CSCS
- Cyngor da ar gyfer cyfweiliadau
- Llunio a diweddarau CV
- Magu hyder
- Sgiliau cyflogadwyedd
- Hyfforddiant mewnol
- Gweithdai
- Cyfleoedd gwirfoddoli

E-Bost: Step@caresociety.org.uk

Ffôn: 07790 988514

Cwrt Campus

Dros y chwe mis diwethaf bu Westdale Midlands Cyf yn cynnal contract insiwleiddio waliau allanol mawr ym Mrongwinau, Comins Coch ar ran Barcud.

Fel rhan o'r contract, fe wnaethant ymrwymo £6,500 tuag at brosiect budd cymunedol a ddynodwyd gan David Lewis, un o'n Syrffwyr, yn ystod ei archwiliad o'r safle. Fel y gwelwch o'r lluniau cynt a wedyn, rydym wedi defnyddio'r arian i adnewyddu'r cwrt tennis ar y stad gan ei fod yn edrych yn weddol hen a blinedig. Mae'r cwrt yn awr yn addas ar gyfer nifer o chwaraeon gan y gosodwyd rhwydi pêl-droed yn ogystal â rhwydi tennis gyda marciau addas. Y syniad yw codi'r rhwydi yn ystod misoedd yr haf pan mae tennis yn tueddu i fod yn fwy poblogaidd.



Gobeithiwn y bydd preswylwyr Brongwinau a Chlawdd Helyg gerllaw yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleusterau newydd gwych.

Dywedodd Mike Rothwell, Rheolwr Prosiectau Arbennig Westdale Mildands Cyf: "Ar ôl gweithio nifer o weithiau gyda Tai Ceredigion a nawr Barcud, mae Westdale Midlands Cyf wedi dod i adnabod eu dymuniadau a'u hymrwymiad i'r cymunedau a wasanaethant.

"Rydym yn falch o'r gwaith a wnawn ar gartrefi tenantiaid. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r angen i fanteisio ar bob cyfle i ehangu gwaddol y prosiectau yr ydym yn ymwneud â nhw tu hwnt i'r cartrefi hynny sy'n uniongyrchol gysylltiedig. Rydym hefyd yn deall yr anghyfleuster y gellir ei achosi ar gyfer preswylwyr heb fod yn uniongyrchol gysylltiedig.



Mae ein gwaith ym Mrongwinau wedi rhoi cyfle rhagorol i ddangos ein cyfraniad i ymrwymiad Barcud. Felly rydym yn falch i gefnogi'r cynnig i adnewyddu ardal cwrt tennis er budd y gymuned gyfan."

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Beth yw hynny?

- Gormod o sŵn neu sŵn dibaid, e.e. cerddo-riaeth neu deledu uchel.
- Ymddygiad difriol neu sarhaus.
- Gweddi, sgrechian, rhegi neu feddw-dod.
- Defnyddio trais neu fygwth defnyddio trais.
- Fandaliaeth, graffiti neu dipio anghyfreithlon

Nid yw ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ei gyfyngu i'r uchod; gall gweithredoedd ac ymddygiad troseddol hefyd ffurfio rhan.

Ym mis Mehefin 2021 rhoddodd Barnwr yn Llys Sirol Aberystwyth feddiant eiddo i Barcud lle'r oedd y tenant yn gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol, yn cynnwys defnydd cyffuriau, ymosodiadau ar breswylwyr lleol, achosi difrod a bygwth achosi difrod a bygwth unigolion, niwsans sŵn, gweddi a sgrechian. Roedd Barcud wedi ceisio gweithio gyda'r unigolyn drwy gynnig cefnogaeth ym mhob llythyr a anfonwyd am ymddygiad y tenant.

Drwy weithio gydag asiantaethau partner, casglwyd tystiolaeth a chyflwynwyd yr achos i'r Llys. Ar y cam hwn, hysbyswyd y Llys am effaith y tenant ar breswylwyr eraill yn yr ardal. Roedd rhai ohonynt wedi ystyried gwerthu eu cartrefi a symud, ar ôl byw yn yr un lle am fwy na 30 mlynedd. Roedd y gollyngdod i breswylwyr pan glywsant y cafodd gorchymyn meddiant ei roi yn amlwg pan ysgrifennodd y preswylwyr ar y cyd at Barcud i ddiolch i'r Tîm Tai am eu gwaith a'u cefnogaeth drwy gydol y broses. Roedd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn un cartref yn golygu na fedrai Barcud osod cartref cyfagos mewn ardal lle roedd 206 o ymgeiswyr am gartref dwy ystafell wely. Roedd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn yn rhwystro dyrannu cartref i deulu ar y Gofrestr Tai oedd mewn gwir angen lle diogel a saff i fyw ynddo.

Ni chaiff ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r math hwn ei oddef; bydd y Tîm Tenantiaid yn mynd â thenantiaid i'r Llys lle mae angen.




Fforwm Gwarchod

Covid-19

Cafodd cyfnod clo Coronafeirws ei orfodi ar bawb ohonom ym mis Mawrth 2020, gan olygu y bu'n rhaid canslo'r Fforwm Tai Gwarchod. Cafodd pob llofa gymunedol yn ein Cynlluniau Gwarchod eu cau ac ni fedrai tenantiaid deithio a chwrdd mewn un cynllun i fwynhau digwyddiad cymdeithasol rheolaidd gyda'i gilydd.

Gwnaed pob ymdrech i gael y Fforwm Gwarchod ar waith cyn gynted ag oedd modd mewn ffordd ddiogel. Gan ddefnyddio technoleg galwad fideo, dechreuodd y Fforwm Gwarchod eto ym mis Medi 2020. Gallodd y tenantiaid a ddymunai gymryd rhan wneud hynny drwy alwadau fideo neu dros y ffôn, lle gallent ddeialu mewn i ymuno. Trefnwyd calendr gwych o ddigwyddiadau ar gyfer chwe mis cyntaf 2021, yn cynnwys trafo-daethau, cyngerdd ar-lein, cwisiau, gemau a sgysiau gyda gwahoddedigion.



Symud ymlaen

Er y bu'n rhaid i ni ohirio cyfarfodydd wyneb-i-wyneb oherwydd cyfyngiadau COVID, gwyddom fod llawer o'n tenantiaid yn dal yn awyddus i gwrdd, cadw mewn cysylltiad a chael sgwrs bob mis. Byddwn yn parhau i gwrdd ar-lein ar ail ddydd Gwener bob mis am 10.30am nes gallwn gwrdd eto wyneb yn wyneb yn ddiogel. Mae pawb ohonom yn gobeithio na fydd hyn rhy bell i ffwrdd.

Os hoffech unrhyw wybodaeth am sut y gallwch gymryd rhan yn y fforwm, ffoniwch fi os gwelwch yn dda.

Yn y cyfamser, byddwch yn ofalus a chadw'n ddiogel

Tess Price

Cydlynnydd Fforwm a Chydlynnydd Cynllun Llys Pedr, Llanbedr Pont Steffan

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Yn 2016 cafodd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ei phasio gan Lywodraeth Cymru. Nod y Ddeddf oedd ei gwneud yn symlach ac yn rhwyddach i rentu cartref yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno llawer o newidiadau i gyfreithiau tenantiaeth. Unwaith y'u gweithredwyd, bydd y newidiadau yn weithredol i bob cartref ar rent yng Nghymru, yn rhai preifat a thai cymdeithasol. Nid yw holl ddarpariaethau'r Ddeddf mewn grym hyd yma, ond mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddant erbyn Gwanwyn 2022.

Unwaith y cafodd y Ddeddf ei gweithredu'n llawn, bydd llawer o newidiadau i gyfreithiau tenantiaeth yng Nghymru, yn cynnwys newidiadau i gytundebau tenantiaeth a gaiff wedyn eu galw yn gontractau meddiannaeth. Cyflwynir dau fath o 'gontract meddiannaeth' yn lle llawer o'r tenantiaethau a'r trwyddedau presennol:

(1) 'contract diogel'

(2) 'contract safonol'

Caiff landlordiaid eu rhoi mewn un o 2 grŵp:

(1) landlordiaid cymunedol (cyngorau a chymdeithasau tai tebyg i Barcud)

(2) landlordiaid preifat (unrhyw landlord yng Nghymru nad yw yn landlord cymunedol).

Caiff tenantiaid eu galw yn 'ddeiliaid contract' a byddant yn derbyn contractau meddiannaeth newydd unwaith y daw y newidiadau i rym.

Peidiwch â phoeni, byddwn yma i'ch cefnogi drwy'r newidiadau hyn.

Ni fyddir yn effeithio ar ddiogelwch eich dalia-daeth a bydd Barcud yn cysylltu â phob tenant mewn da bryd cyn i'r newidiadau ddod ar waith i esbonio'r diweddariad.

Bydd y tîm tai hefyd yn gweithio gyda Grŵp Monitro Barcud fel mae datblygiadau'n digwydd ac y caiff newidiadau eu cyflwyno.

Hyfryd lawn!

Bu tenantiaid Cynllun Gwarchod Glascoed yn Llandysul yn brysur iawn dros y cyfnod clo. Drwy weithio'n galed ar eu gerddi ac ardaloedd glas o amgylch y cynllun, maent wedi ei wneud yn lle mor hapus a lliwgar i bawb ei fwynhau. Maent hefyd wedi mwynhau manteision ymarfer ac awyr iach yr un pryd! Hoffai'r tenantiaid ddweud diolch yn fawr i Ganolfan Ieuenctid Tysul yn Llandysul am eu holl waith caled a chefnogaeth yn ystod y cyfnod. Mae cydweithio fel hyn yn wirioneddol yn dangos cymuned ar ei gorau. Os ydych ar Facebook, ewch i dudalen Barcud i weld y fideo.



Bu tenantiaid Maes Gogerddan yng nghanol Aberystwyth yn ddigon ffodus i dderbyn rhodd o hadau a deunyddiau garddio gan Morrisons yn Aberystwyth. Mae blodau'r haul yn edrych yn wych ac yn wir yn dod â lliw i'r safle.

Meddwl Cyn Fflysio

Bu tîm cynnal a chadw Barcud yn edrych ar ddata galwadau'n ddiweddar ac mae draenau wedi blocio ar frig y rhestr am alwadau yn ystod penwythnosau.

Mae pryderon fod mwy a mwy o bobl yn rhoi pethau lawr y toiled na ddylai fynd yno. Byddwch yn ofalus am beth ydych yn ei fflysio lawr y toiled.

Dengys dadansoddiad diweddar o alwadau tu allan i oriau ar gyfer tîm Medra y cawsom ein galw allan i ddraenau wedi blocio bob wythnos. Mae rhai achosion oherwydd gwallau yn y draenau, ond mae pryderon fod mwy a mwy o bobl yn rhoi pethau lawr y toiled na chawsant eu cynllunio i fynd drwy'r system.



Byddwch yn ofalus os gwelwch yn dda a meddwl cyn fflysio!

<https://thinkbeforeyouflush.org/what-to-flush/>

Datblygiadau Cyffrous Yn Yr Ystog

Gall ceisio prynu eu cartref cyntaf eu hunain fod yn wirioneddol i rai sy'n dymuno gwneud hynny. Dyna pam ddechrau mis Rhagfyr yr oedd Barcud yn falch i weld mwy o deuluoedd yn symud i'w cartrefi 'Rhentu i Brynu' newydd sbon. Mae'r cynllun 'Rhentu i Brynu' yn brosiect a gyllidir gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cyfle i ymgeiswyr llwyddiannus symud i gartref gyda'r nod yn y diwedd o brynu'r eiddo. Mae'r cynllun yn galluogi'r tenant i gynilo tra'n rhentu, gan wneud yr ernes hanfodol hwnnw o fewn cyrraedd a'u galluogi i brynu eu cartref cyntaf eu hunain. Mae gan ymgeiswyr hefyd y fantais o sicrwydd cael mynediad i wasanaethau cymorth tai sy'n dod law yn llaw gyda bod yn denant Barcud a'r hyder fod y cartrefi a brynant yn rhai ansawdd uchel, fforddiadwy a chynaliadwy.



Dyweddodd Jo Hughes, Swyddog Tai ardal y Trallwng: 'Mae proses 'Rhentu i Brynu' wedi fy ngalluogi i ddod i wir adnabod ein hymgeiswyr a'u taith, a fu'n ffordd hir i rai. Roedd teimlad o gyffro go iawn ar y diwrnod symud i mewn, sydd wedi creu ymdeimlad go iawn o gymuned a balchder gan ymgeiswyr, staff a chontractwyr a fu'n gweithio i adeiladu'r cartrefi yma'.

I Gysylltu â Barcud

Dros y Ffôn
Galw 0300 1113030
Pwyso 1 (cyn-denantiaid TC)
Pwyso 2 (cyn-denantiaid MWAH)

Drwy'r Post
Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan,
Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

Meddai Gareth Turner, tenant Rhentu i Brynu: "Ar ôl byw mewn cartref Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru o'r blaen, roeddem yn gwybod beth i'w ddisgwyl a'r hyn a ddisgwyliwyd gennym ninnau. Fe wnaeth hyn symud o'n hen gartref i'r un newydd yn llawer symlach. "Mae cynllun Rhentu i Brynu – Cymru yn syniad gwych. Gyda theulu ifanc, mae bron yn amhosibl cynilo i gael swm go lew ar gyfer ernes. Mae'r cynllun hwn yn ein helpu i gynilo rhan helaeth heb y demtasiwn o'i ddefnyddio ar gyfer pethau eraill. Rwyf eisoes wedi awgrymu wrth ddau neu dri o ffrindiau eu bod yn symud i gartref 'Rhentu i Brynu'. Rwy'n credu ei bod yn ffordd wych i brynu eich cartref cyntaf."

- Sut mae'n gweithio?**
Sut mae 'Rhentu i Brynu – Cymru yn gweithio':
- byddwch yn rhentu'r cartref i ddechrau a gallwch dderbyn 25% o'r rhent a dalwyd dros gyfnod y denantiaeth a 50% o'r cynnydd yng ngwerth yr eiddo (os oes cynnydd) yn ystod y cyfnod yr ydych wedi rhentu'r cartref i'w ddefnyddio fel ernes tuag at brynu'r cartref.
 - mae eich cytundeb Rhentu i Brynu – Cymru yn parhau am hyd at 5 mlynedd. Gallwch wneud cais i brynu eich cartref unrhyw amser rhwng diwedd yr ail flwyddyn a dawdd y cytundeb.

Nodyn terfynol: Y cartrefi hyn yw rhai o'r olaf i gael eu cyllido dan gynllun Rhentu i Brynu-Cymru.

Eisiau gwybod mwy?
Peidiwch a godi! Cysylltwch gyda'n hasiant MMP Homes ar 01938 554818.

Ar-lein
barcud.cymru
Llenwi'r ffurflen cysylltu â ni o'r wefan
Porth Tenantiaid (cyn-denantiaid MWAH)
Ap TŷFi (cyn-denantiaid TC)
E-bost: post@barcud.cymru
Facebook: Barcud Twitter: @taibarcud

TŷFi

Rydym yn falch i'ch hysbysu bod mynediad i borth ar-lein ar gael bellach i bob tenant. Gallwch ddod o hyd i hyn ar y wefan (o dan y Gwasanaethau Tenant). Mae'n ffordd wych i denantiaid gyfa-threbu â ni ar-lein ynghylch tenantiaeth, cyfrif rhent, atgyweiriadau, canmoliaeth a chwynion neu faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol.



UC Universal Credit
Credyd Cynhwysol

Diweddariad Pwysig ar y Credyd Cynhwysol

Ym mis Ebrill 2020 cyflwynodd y Llywodraeth gynnydd o £20 yr wythnos mewn taliadau Credyd Cynhwysol i gefnogi aelwydydd oedd yn ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd wrth wynebu pandemig coronafeirws. Y bwriad oedd i'r mesur barhau am 12 mis, i ddod i ben ar 31 Mawrth 2021, ond ar ôl pwysau ar y Llywodraeth, yn y Gyllideb ym mis Mawrth cyhoeddodd y Canghellor Rishi Sunak y byddai estyniad o chwe mis. Daw taliad chwyddo Covid yn awr i ben ar 30 Medi 2021. Ni fydd unrhyw estyniad pellach ar ôl y dyddiad hwn a bydd eich taliadau yn gostwng gan £20 yr wythnos. Byddwch yn derbyn hysbysiad am y toriad drwy eich cylchlythrau Credyd Cynhwysol a datganiadau ar-lein, ac anfonir llythyrau at y bobl fwyaf bregus. Os ydych yn poeni am y gostyngiad hwn ac angen cymorth gyda'ch cyllid, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â Thîm Cynnal Barcud ar 0300 111 3030.

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Cynhelir CCB cyntaf Barcud (yn rhithiol) ddydd Iau 23 Medi. Os hoffech fynychu, cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 111 3030 os gwelwch yn dda.

Pawb

Arolwg Cylchlythyr Fforwm Cartref

Diolch i'r rhai ohonoch a roddodd amser i lenwi'r arolwg diweddar am gylchlythyr Barcud. O'r ymatebion a gafwyd, roedd 93% yn darllen y cylchlythyr, gyda 60% yn darllen pob rhifyn a 33% yn ei ddarllen weithiau. Roedd 93% yn meddwl fod yr erthyglau yn ddiddorol. Roedd yn well gan 60% gael copi yn y post, ac yn well gan 33% ei dderbyn drwy e-bost. Roedd 40% eisiau mwy o wybodaeth am ymgyfraniad tenantiaid, 20% eisiau tudalen i blant a 20% eisiau cystadlaethau. Cawsom fwy o awgrymiadau am enw newydd posibl a hoffem glywed mwy gan denantiaid, gyda'u syniadau hefyd. Sylwadau eraill a gafwyd oedd: "Rwy'n meddwl ei fod yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno'n dda" "Roedd y cylchlythyr diweddaraf yn hawdd ei ddarllen." Cawsom amrywiaeth o syniadau ar gyfer arolygon y dyfodol, felly os hoffech fod yn rhan o'r arolygon hyn neu os oes gennych enw newydd ar gyfer y cylchlythyr, cysylltwch ag un o Swyddogion Ymgyfraniad Tenantiaid Barcud drwy ffonio 0300 111 3030 neu anfon e-bost at post@barcud.cymru.



Dewch i ymuno â ni ar gyfer ein
Cynhadledd Tenantiaid
cyntaf ar lein
Dydd Mercher 6ed Hydref 2021
1.30pm - 3.30pm
Cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 111 3030 i gofrestru os gwelwch yn dda. Bydd manylion mewngofnodi ar gael maes o law.

Coedwig Bwyd am Ddim ym Machynlleth

Mae Barcud wedi darparu rhai ardaloedd cymunol ym Machynlleth ar gyfer prosiect cyffrous a gyllidir gan Hwb Gweithredu ar Hinsawdd Cronfa Gymunedol y Loteri Cenedlaethol i blannu coed a pherthi ‘bwydwy’ ar draws y dref i roi ffrwythau a chnau cartref i bobl Machynlleth. Trefnwyd y prosiect gan Angela Paxton o Gerddi Bro Ddyfi, ar ôl cysylltu â'r Gymdeithas gyntaf ym mis Tachwedd 2020.



Plannodd Angela, Huw Cooke a phreswylwyr Maes Dyfi, Craigfryn a Chwrt David Williams y coed ym mis Mawrth 2021. Cafodd y prosiect gwyh hwn ei groesawu gan breswylwyr, sydd wedi dod yn warcheidwaid coed yn dilyn hyfforddiant gan Gerddi Bro Ddyfi am ofalu am y planhigion. Edrychwn ymlaen at weld y planhigion yn ffynnu!

Diweddariad Medra

Llongyfarchiadau i Eirian Morgan a Chris James, sy'n aelodau o dîm Medra, am gwblhau eu Cynllun Hyfforddiant Diogelwch Goruchwyllo Safle CITB. Bu'r ddau yn gweithio ar estyniad newydd yng Nghynllun Gwarchod Glyn Padarn, Aberystwyth.



Galw Allan

Caiff gwaith trwsio Medra eu trefnu fel y gall y tîm ddefnyddio eu hamser yn effeithiol. Os hoffech drefnu gwaith trwsio gyda Medra, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda os oes unrhyw beth a fyddai'n ein hatal rhag gorffen y gwaith. Cawsom enghreifftiau yn ddiweddar o denantiaid yn peidio gadael i'n staff fynd i mewn i gartrefi i drwsio problemau yr oeddent wedi gofyn am gymorth gyda nhw. Mae hyn yn:

- 1. Gwastraffu amser
 - 2. Gwastraffu arian tenantiaid
 - 3. Ein hatal rhag mynd i wneud swyddi eraill.
- Diolch.



Taliadau Tanwydd Gaeaf

Mae Taliadau Tanwydd Gaeaf yn daliad blynyddol di-dreth i helpu gyda chostau gwresogi. Caiff y rhan fwyaf o'r taliadau eu gwneud ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Gallech hefyd fod yn gymwys am Daliad Tywydd Oer os yw'r tywydd yn eithriadol o oer am gyfnod hir.

Ym mlwyddyn ariannol mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022, mae'r taliad yn:

- £200 os oeddech dan 80
- £300 os oeddech dros 80.

Fodd bynnag, byddwch fel arfer yn cael llai os ydych yn byw gyda phobl eraill sydd hefyd yn gymwys. Gallech fod yn gymwys am Daliad Tanwydd Gaeaf os ydych yn diwallu'r holl feini prawf dilynol:

- cawsoch eich geni ar neu cyn 26 Medi 1955 (i fod yn gymwys am flwyddyn ariannol Ebrill 2021 i Mawrth 2022 – mae'r dyddiad geni cymhwyster yn newid bob blwyddyn ariannol).
- eich bod wedi byw yn y Deyrnas Unedig drwy gydol yr wythnos gymhwysol ar gyfer flwyddyn ariannol 2021-2022 (sef 20-26 Medi 2021)


Byddwch fel arfer yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf yn awtomatig os ydych yn derbyn pensiwn gwladol neu fudd-dal arall tebyg i Gredyd Pensiwn (ond nid Budd-dal Tai, Credyd Cynhwysol neu'r Cynllun Gostwng Treth Gyngor).

Bydd angen i chi wneud hawliad os ydych yn gymwys ond heb gael ei dderbyn yn awtomatig.

Os mai dyma'r flwyddyn gyntaf y gallwch hawlio, neu os nad ydych erioed wedi hawlio o'r blaen, ffoniwch linell gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf ar 0800 731 0160. Bydd angen i chi wybod eich rhif Yswiriant Gwladol a manylion eich banc neu gymdeithas adeiladu.

Dim ond unwaith y bydd angen i chi hawlio. Ar ôl hynny, dylech dderbyn taliad yn awtomatig bob blwyddyn cyhyd nag yw'ch amgylchiadau yn newid.

Os ydych yn cael trafferth i ymdopi'n ariannol neu os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol ar y Taliad Tanwydd Gaeaf, cysylltwch â thîm Cynnal Barcud ar 0300 111 3030.



Creuddyn

Erbyn ichi ddarllen hwn, bydd trosglwyddiad ein cyfleuster busnes a hyfforddi newydd yn Llambod wedi'i gwblhau. Bydd Creuddyn yn cynnig unedau swyddfa a swyddfeydd gyda desgiau hyblyg eco-gyfeillgar newydd sbon o'r radd flaenaf i'w rhentu yn yr adeilad arbennig hwn. Gyda mynedfeydd unigol, derbynfa, cegin gymunedol, cyfleusterau cawod / toiled, parcio, lifft, pwynt gwefru cerbydau trydan a chyfleusterau ystafelloedd cyfarfod rhagorol i'w llogi. Os ydych chi'n chwilio am

- 1. cartref newydd i'ch busnes, neu
- 2. cartref i'ch busnes cychwynnol newydd,

cysylltwch â: Catrin Owen ar 01570 424365 creuddyn@barcud.cymru

Cystadleuaeth Lluniau Gerddi 2021

Hoffem ddweud diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth lluniau gardd eleni. Roedd y safon yn uchel tu hwnt, gyda gerddi hardd a lliwgar. Mae'n rhaid ei bod angen cryn dipyn o waith i gadw popeth yn edrych mor hyfryd.


Diolch i Glwb Garddio y Drenwydd, a fu mor garedig â chytuno i feirniadu'r gystadleuaeth i ni. Roedd yr holl gynigion yn ddiennw a roedd gan y deg beirniad benderfyniadau anodd i'w gwneud i ddewis yr enillwyr. Ni fedrem fod wedi cynnal y gystadleuaeth heb eu harbenigedd nhw.

Enillwyr categorïau cystadleuaeth lluniau gerddi:



1. Arddangosiad gorau o flodau (gardd breifat)

Mr Gillman-Yates, Aberteifi
Sylwadau'r beirniaid: Roedd y cyfuniad o botiau yn rhagorol. Roedd planhigion o wahanol daldra yn helpu i ychwanegu diddordeb.



2. Basged grog, cynhwysydd neu flwch ffenestr gorau

Mr Gillman-Yates, Aberteifi
Sylwadau'r beirniaid: Roedd hyn yn sefyll allan fel bod yn sblash gwirioneddol o liw ar y wal.

5. Gardd orau i bryfed neu nodwedd gardd eco/bywyd gwyllt (dan 16 oed)

Gwaetha'r modd, nid oedd unrhyw geisiadau yn y categori hwn.

Bydd enillwyr pob categori yn derbyn tystysgrif i gyd-nabod eu gwaith caled yn eu gerddi a thalebau rhodd £50 National Garden. Mwynhewch eu gwario! Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr.

4. Arddangosiad gorau mewn cynhwysydd anarferol

Deborah Hawke, Aberporth
Sylwadau'r beirniad: Roeddem yn meddwl fod yr un yma yn greadigol a gwahanol iawn.



3. Gardd lysiau orau

Linda Moorhouse, Aberteifi
Sylwadau'r beirniaid: Roedd hyn yn dangos amrywiaeth fawr o lysiau yn tyfu mewn lle bach.

